



Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

Cymdeithas Bob Owen

Tâl aelodaeth - £2 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

SWYDDOGION

Llywydd:

Dr E.D. Jones

Cadeirydd:

D. Tecwyn Lloyd

Ysgrifennydd:

Richard H. Lewis,
Llys Afan, Penygarn,
Bow Street, Dyfed.
(Aberystwyth 828102)

Trysorydd a Threfnydd Busnes:

John Dilwyn Williams,
Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,
Pwllheli, Gwynedd.
(Pwllheli 613480)

Golygydd:

John Roberts Williams
18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon
Tel: Caernarfon 3593

Cyhoeddiwr Y Casglwr

gyda chymorth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru

UN O fendithion sgwennu i'r CASGLWR yw derbyn gwybodaeth oddi wrth ambell gyd-aelod o'r Cymdeithas. Yn y rhifyn diwethaf cyfeiriais at beth o gyfoeth y CYMRU COCH i'r sawl sy'n ymddiddori mewn llên a chanu gwerin: apeliais, yn arbennig am oleuni pellach ynglŷn â rhai materion. Bu'r ymateb yn galonogol dros ben.

Aeth Dafydd Guto, Tremadog, ar drywydd peth o'r ddadl ynghylch Ysbrydion yn YR EURGRAWN, a'i lleoli yn rhifyn Chwefror 1824 (tt.53-61); o leiaf, y cyfraniad iddi yr oeddwn i'n holi yn ei gylch. Yn wir, bu'n ddigon caredig i anfon dyblygiad imi o'r tudalennau perthnasol; aeth i gryn drafferth ar fy rhan.

Wrth wneud hyn, hefyd, fe gywirodd gamgymeriad a wnes. Tybiaswn mai Iago Mochnant ei hun a fu'n dadlau â Chawrdaf ond nid felly y bu. R Jones o'r Brithdir oedd y dadleuydd dan sylw. Diolch am y cywiriad.

Oddi wrth Dewi Jones, Penygroes, daeth imi wybodaeth ychwanegol am rai o delynorion Dyffryn Nantlle a'r cylch; gyda bonws pellach yn bwrw rhagor o oleuni ar gân y bûm ar ei thrywydd am sbelan

At y Golygydd YMATEB DA

hir, sef 'Yr Eneth Glaf'. Edrychaf ymlaen at dderbyn rhagor o oleuni oddi wrtho ar ambell faled a chân werin.

I gwblhau'r 'Tri Chymwynaswr Goruchel Cymru Gyfoes' daeth galwad ffôn oddi wrth Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Ymysg nifer o bethau diddorol a glywais y noson honno dysgais y gallai'r 'Dafydd, gŵr hylaw, Dol Helig' (y cyfeirid ato yn yr hen bennill a ddyfynnais) fod yn dod o Ddôl Helyg, Llanrug. (Gweler yr ysgrif arno yn y rhifyn hwn - Gol.)

Sut bynnag am hynny, ar gorn hyn oil sylweddolais nad oeddwn wedi bod yn ddigon gofalus wrth lunio fy ysgrif. Mynnais fod y ddau hen bennill a nodais yn tystio i boblogrwydd canu penillion yn y rhan o'r wlad sydd rhwng Abergwyngreg yn y dwyrain a Chwm Pennant yn y de.

Esboniais y cyfeiriad at Gwm Pennant, ond heb sôn am y pegwn arall, ardal Abergwyngreg. Fy ngharn

dros nodi'r ardal honno oedd y cyfeiriad yn yr ail bennill at 'Ifan Tai'r Meibion'. Yn ymyl Talybont, ger Llandygai, y mae'r unig 'Tai'r Meibion' y gwn i amdano ac awgrymaf mai gŵr yr hendref honno oedd Ifan y Datgeinydd.

Ymhellach, sylwais bod lle o'r enw 'Dôl Helyg' yn yr un cyffiniau. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n bosibl fy mod yn anghywir ynglŷn â lleoliad 'Dôl Helyg' yr hen bennill ac y byddai'n ddiogelach i mi awgrymu mai yn Llanrug y dylwn ei osod. O leiaf, mae Dafydd Whiteside Thomas wedi fy llwyr argyhoeddi bod yna 'Ddafydd' yn byw yno tua chanol y ddeunawfed ganrif. 'Does gennyf yr un affliw o syniad pwy a allai fod yn byw yn Nôl Helyg, ardal Talybont, tua'r un amser!

Meredydd Evans

Rhoddion

gyda mawr ddiolch

Mrs G P Williams, Bae Trearddur: £1.00; E Roberts, Penrhyndeudraeth: £6.00; A Lewis, Caerdydd: £3.00; R T Jones, Llanarmon-yn-Ial: £2.00; E V Jones, Penrhyndeudraeth: £3.00; Mrs M K Jones, Aberdaron: £3.00; R R Herbert, Cricieth: £8.00; Miss C Lloyd Williams, Porthaethwy: £9.00; Mrs B W Wood, Blaenau Ffestiniog: £1.00; R T Jones, Penygroes: £4.00; Miss E Rees, Aberystwyth: £10.00; I G Jones, Aberystwyth: £1.00; A Hughes, Llanymawddwy: 50c; Mrs N Griffith, Llanrug: £2.00; Mrs G Rees, Porthaethwy: £4.00; H Jones, Llanymddyfri: £3.00; R Davies, Ponciau: £2.00; Miss J B Williams, Porthaethwy: £20.00; M E Williams, Llandaf: £20.00; Mrs M Thomas, Porthaethwy: £2.00; A Fleming, Llanfairpwll: £1.00; T H Godfrey, Darlington: £3.00; Dr W B L Evans, Penrhyn-coch: £3.00; W M Davies, Abergel: £1.00; J Morris, Efrog: £3.00; D Griffiths, Trefor: £1.00; M Owen, Llundain: £2.00; J E M George, Caerdydd: £6.00; Rh G Jones, Pentyrch: £3.00; Dr E J Ll Davies, Y Fenni: £3.00; Mrs N Jones, Y Bala: £4.00; Mrs N Owen, Ashbourne: £3.00; J R Jones, Nefyn: £1.00; G M Howells, Aberystwyth: £1.00; D Brown, Castle Donington: £3.00; M H Greencombe, South Croydon: £1.00; A Japheth, Llanuwchllyn: £1.00

YN EISIAU

STEDDFOTA, Cylchgrawn eisteddfodau a gwyliau gwerin Cymru. Rhif 5, Medi 1983, a Rhif 8, Mawrth-Ebrill 1984.

SULYN, Papur Sul Gwynedd. Y rhifyn bach 4 tudalen a ddaeth allan ym Medi 1982.

Richard H. Lewis, Llys Afan, Penygarn, Bow Street, Dyfed. SY24 5BQ. Ffôn: Aberystwyth 828102.

YN Y Casglwr diwethaf (Nadolig '86) dywed Dafydd Guto i w'r o wlad Pwyl sôn wrtho fod geiriadur Pwyleg-Cymraeg ar gael. "Tybed?" gofynna Dafydd. "Wyr y darllenwyr ei hanes?"

Wel, y mae un geiriadur Cymraeg-Pwyleg, o leiaf - beth bynnag am vice versa - wedi ei lunio ers deng mlynedd ar hugain. Bûm yn ei fodio ac yn adrodd peth o'i hanes pan oeddwn yn ohebydd i'r Cymro.

Erbyn hyn mae'r Geiriadurwr yn ei fedd ond mae llawysgrif ei eiriadur yn ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ac mae copi wedi ei anfon hefyd i wlad Pwyl.

Y gŵr a luniodd y geiriadur oedd Franciszek Lis, un o'r Pwyliaid a ymgartrefodd yng Nghymru wedi'r rhyfel. Yr oedd yn dipyn o Ddic Aberdaron, yn hyddysg mewn Lladin, Groeg, Rwseg, Almaeneg, Eidaleg, Ffrangeg, Saesneg ac ieithoedd Siecoslofacia a'r Wcrain, yn ogystal â Phwyleg, wrth gwrs, cyn dod yma. Aeth ati'n ddiymdroi wedyn i ychwanegu peth Cymraeg hefyd at y rhes o ieithoedd at ei alwad.

Pan gefais i sgwrs ag ef yn 1958 yr oedd Franciszek Lis wedi llunio geiriadur o ryw 2,200 o eiriau. Wn i ddim faint a helaethodd ar y cynnwys ar ôl hynny. Ei fwrriad oedd chwilio am gyhoeddwr a mynd ati i gynllunio fersiwn o'r Bwyleg i'r Gymraeg.

* * *

Geiriadur Cymraeg gan y gŵr o Bwyl

Atgo DYFED EVANS

TREULIAI Franciszek Lis chwe awr y dydd yn cronico geiriau. Ymddiddorai hefyd mewn cyfieithu gweithiau fel Pedair Cainc y Mabinogion, canu Llywarch Hen a cherddi Gwalchmai ap Meilyr a Dafydd Benfras.

Anaml, gallwn dybio, y rhoddai gynnig ar drosi gweithiau mwy modern, ond cofiaf ido roi gwahoddiad i'm cymrawd Robin Griffith, y tynnwr lluniau, a minnau ganu pwt o'i gyfieithiad o 'Hen Wlad fy Nhadau!:

Kraj moj ojezysty jak drogi jest mi,

Kraj bardow i piesni, wolnosci i czei.

Ni allaf honni am funud fod y geiriau yma wedi eu sillafu'n gywir, ac ysywaeth byddai tu hwnt i allu cerddorol Robin na minnau i'w canu mewn tiwn p'run bynnag - boed Gymraeg neu Bwyleg.

Ar ôl dod i gartref y Pwyliaid ar hen faes awyr Penyberth yn Llŷn y dechreuodd Franciszek Lis ymgodymu â'r Gymraeg - a chael y treigliadau yn arbennig o anodd yn ôl ei gyfaddefiad ei hun.

Prynodd bob geiriadur Cymraeg y medrodd gael gafael arno a chafodd fenthwy geiriadur mawr William Owen Pughe gan Miss S A Humphreys o Abererch a geiriadur

Fynes-Clinton ar dafodiaith ardal Bangor gan Dr Griffith Evans, Caernarfon; turiodd mewn geiriaduron Groeg, Saesneg, Eidaleg ac Alameneg i chwilio am eiriau yr oedd eu gwreiddiau yn gyffredin drwy Ewrop ac astudiodd yn ofalus iawn "Bannau Llên Pwyl" gan yr Athro T Hudson Williams.

Yr oedd y gyfrol honno, meddai Franciszek Lis, yn gyfieithiad penigamp o'r Bwyleg, ac at hynny yn ddewis gwych o bigion llenyddol gwlad Pwyl. Bu'n llyfr a roes gymorth mawr iddo. Cydnabyddai hefyd iddo gael cyfarwyddyd gwerthfawr gan Syr Ifor Williams pan aeth ato i ymgynghori cyn dechrau ar ei orchwyl.

* * *

BARNWR oedd Franciszek Lis yn ei wlad ei hun cyn y rhyfel. Bu'n swyddog cyfreithiol yn y Fyddin hefyd ac wedi dod i Gymru gweithredai fel ymghyhorwr cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â gwŷr gwlad Pwyl ym Mhrydain.

Saer maen oedd ei dad. Yr oedd wyth o blant yn y teulu a cholodd Franciszek ei fam pan oedd yn yr ail flwyddyn yn yr ysgol. Collodd ei dad ddwy flynedd yn ddiweddarach a bu'n rhaid iddo ymdrechdu wrtho'i hunan imo ymddyng. I dalu am ei le yn y brifysgol rhoesai wersi i blant.